



Adroddiad Blynyddol 2016-2017



wwcp

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, sy'n amlinellu ein cyflawniadau dros y flwyddyn ac yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i gyflymu'r broses o integreiddio a thrawsnewid ledled y rhanbarth dros y cyfnod i ddod.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y gofal a'r cymorth priodol ar gael i bobl sydd eu hangen a bod gofalmwyr yn derbyn lefelau priodol o gymorth. Sefydlwyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar sail y gred, a rennir gan yr holl bartneriaid, y gallwn fod yn fwy effeithlon ac ymatebol i anghenion dinasyddion ein rhanbarth drwy gydweithio ar draws y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Rydym hefyd yn cydnabod y cyfraniad y gall y dinasyddion eu hunain ei wneud ac y dylent ei wneud i lywio gofal a chymorth ac yn bwrw golwg ar yr hyn sy'n llwyddo a meysydd sydd angen eu gwella. Rydym yn falch iawn o gael 2 ddefnyddiwr ac 1 gofalwr ar ein Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac wedi elwa eisoes ar eu safbwyntiau wrth i ni ddatblygu ein rhaglen ranbarthol. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau yw hyn a'r flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd llunio trefniadau cadarn ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion, drwy ddefnyddio fforymau cyfredol a datblygu dulliau newydd, i sicrhau eu bod yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar sut mae gofal a chymorth yn cael eu darparu yn y rhan hon o Gymru.

Gallwn fod yn falch o'r sylfeini a osodwyd ers i'r Ddeddf ddod i rym flwyddyn yn ôl. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn gwbl weithredol erbyn hyn ac wedi nodi 5 amcan strategol sy'n adlewyrchu ei ddyletswyddau statudol a bydd yn allweddol i ddatblygu rhaglen newid uchelgeisiol ledled y gorllewin. O dan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, mae gennych y Bwrdd Cyflawni Rhaglen Integredig sy'n cynnwys uwch swyddogion pob asiantaeth bartner ac a fydd yn allweddol i gynnal momentwm a chraffu'n fanwl ar gynnydd. Yn fuan, bydd ein sylw'n troi at ddatblygu ein cynllun ardal cyntaf mewn ymateb i'n hasesiad o'r boblogaeth; bydd hyn yn darparu datganiad clir, cyhoeddus o gyfeiriad y bartneriaeth wrth fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a nodwyd gennym.

Edrychwn ymlaen at gam nesaf ein taith a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n rhan o'r bartneriaeth am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, a gwyddom y gallwn barhau i ddibynnu ar hyn wrth i ni symud ymlaen.



Sue Darnbrook
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth
Ranbarthol Gorllewin Cymru



Cyngorydd Simon Hancock
Is-Gadeirydd,
Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin
Cymru

1. Cyflwyniad

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer Cymru, gyda'r nod o wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae ei hegwyddorion craidd yn darparu sail i newid siâp gwasanaethau a'r ffordd o'u darparu.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Egwyddorion Craidd

Llais a rheolaeth: Rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais gwirioneddol iddynt o ran y gofal a'r cymorth maent yn eu derbyn

Atal ac ymyrryd yn gynnar: Gwella gwasanaethau ataliol yn y gymuned i helpu i leihau'r angen am ofal hirdymor

Llesiant: Cynorthwyo pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur effeithiolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir

Cydgynhyrchu: Datblygu cydweithio rhwng gwahanol ymarferwyr a phobl i gynllunio a darparu gofal a chymorth

Cydweithio, partneriaeth ac integreiddio: Darparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon a darparu gofal a chymorth cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

O dan Ran 9 o'r Ddeddf, mae gofyn i awdurdodau lleol gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i gynllunio a darparu gofal a chymorth. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn galluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i lunio trefniadau partneriaeth ffurfiol a threfniadau ariannol ar y cyd i wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael a chefnogi modelau gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydlu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol i gwmpasu meysydd Byrddau Iechyd Lleol a dod â phartneriaid allweddol a defnyddwyr a gofalwyr ynghyd i gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae disgwyl i'r Byrddau:

- Gefnogi cynlluniau strategol yn eu hardal
- Rheoli a datblygu gwasanaethau
- Sicrhau darpariaeth gofal a chymorth effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl leol

Mae gan y Byrddau ddyletswydd i flaenoriaethu'r gwaith o integreiddio amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys y rhai ar gyfer:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia
- Pobl ag anableddau dysgu
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc

- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd neu salwch

Mewn ymateb i'r gofynion hyn sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ym mis Mehefin 2016. Mae ardal y Bwrdd yr un fath ag ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Wrth fwrw ymlaen â'r agenda integreiddio, mae'r Bwrdd yn adeiladu ar sylfeini cydweithio cryf a nifer o drefniadau cydweithio sy'n bodoli eisoes ledled y rhanbarth, rhai ohonynt yn ymestyn i Bowys, y sir gyfagos ac yn cynnwys:

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru: Partneriaeth ranbarthol a sefydlwyd yn 2014 sy'n cyfuno gwasanaethau mabwysiadu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys i sicrhau darpariaeth gyson, gan gefnogi gwelliannau, ac ategu gwaith timau mabwysiadu lleol. Mae'n rhan o Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru Gyfan.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol i oedolion (CWMPAS) a phlant (CYSUR): Mae'r Byrddau hyn yn cynnwys y Gorllewin a Phowys ac yn dod â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau amrywiol ynghyd i amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed ac atal achosion o'r fath rhag digwydd.

Hwb Caffael Rhanbarthol ar gyfer lleoliadau cost uchel anabledd dysgu, anabledd corfforol ac iechyd meddwl: Yn cael ei redeg gan Gyngor Sir Penfro, mae'r hwb yn rheoli'r broses gaffael ar gyfer lleoliadau cost uchel ar ran asiantaethau partner ledled y gorllewin a Phowys, gan sicrhau arbedion a galluogi partneriaid i weithio mewn dull cydweithredol, agored a thryloyw gyda'r sector annibynnol er lles defnyddwyr gwasanaethau.

Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru: Cynllun sy'n cwmpasu ardal y Gorllewin ac sy'n darparu gofal a chymorth hirdymor, byrdymor a seibiant i oedolion agored i niwed mewn cartrefi teuluoedd sydd wedi'u recriwtio'n benodol a phobl sy'n byw yn y gymuned.

Advocacy for children: Darparu contract rhanbarthol sy'n cwmpasu'r Gorllewin a Phowys ac yn bodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer darparu eiriolwyr proffesiynol annibynnol, lle bo angen, i helpu unigolion i gymryd rhan yn llawn yn y broses gofal a chymorth.

Mae creu trefniadau partneriaeth statudol o dan y Ddeddf wedi darparu sbardun i integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau ymhellach yn y Gorllewin.

2. Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Dechreuodd y paratodau ar gyfer sefydlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn gynnar yn 2016. Sefydlwyd Bwrdd cysgodol ac aeth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ati i weithio gyda phartneriaid i ystyried dyletswyddau statudol y Bwrdd, cytuno ar drefniadau aelodaeth a datblygu cylch gorchwyl.

Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ar 16 Mehefin 2016 a chynhaliwyd cyfarfodydd dilynol ar 15 Medi 2016 a 15 Rhagfyr 2016.

Aelodaeth o'r Bwrdd

Roedd angen i'r Bwrdd gael y bobl gywir yn gynnar i sicrhau ei fod yn gallu adlewyrchu ystod o fuddiannau a safbwyntiau go iawn a sicrhau newid trawsnewidiol. I gyflawni hyn, cytunwyd i fynd y tu hwnt i'r aelodaeth a oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf. Er enghraifft, teimlwyd ei bod hi'n briodol cael Aelodau Cabinet o bob awdurdod lleol ar y Bwrdd yn hytrach na dim ond un aelod. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i wahodd uwch gynrychiolydd y Cyngor Gofal i fod yn aelod o'r Bwrdd, gan ddarparu safbwynt gwerthfawr ar faterion y gweithlu a chyswllt ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yn y dyfodol, corff a fydd yn dod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2017.

Yn yr un modd, roedd partneriaid yn glir y gallai penodi dim ond un defnyddiwr gwasanaethau ac un gofalwr osod disgwyliadau afresymol ar yr unigolion hynny i gynrychioli amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau ledled y rhanbarth. Felly, penodwyd dau ddefnyddiwr gwasanaethau, un â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau anabledd dysgu a'r llall â chyflwr iechyd hirdymor sy'n golygu bod angen dod i gysylltiad ag amrywiaeth o wasanaethau iechyd lleol yn gyson. Ar y dechrau, dim ond un gofalwr oedolion a benodwyd i'r Bwrdd ond rydym wrthi'n recriwtio gofalwr oedolion ifanc neu riant-ofalwr er mwyn darparu safbwynt ehangach ar yr heriau sy'n wynebu gofalwyr ac atebion posibl.

O ran partneriaid statudol, mae Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ymuno â'r tri Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bwrdd. Caiff y sector preifat ei gynrychioli gan Fforwm Gofal Cymru, a'r trydydd sector gan Brif Swyddog Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyfarwyddwr MIND Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Partneriaeth Bwrdd Rhanbarthol Gorllewin Cymru: Aelodaeth

Sue Darnbrook (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw, Cyngor Sir Ceredigion
Cynghorydd Simon Hancock (Is-gadeirydd)	Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion, Iechyd a Lles a Chydraddoldeb, Cyngor Sir Penfro
Jake Morgan	Cyfarwyddwr Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Griffiths	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, Cyngor Sir Penfro
Cynghorydd Jane Tremlett	Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Cynghorydd Catherine Hughes	Aelod Cabinet dros Ofal, Sicrwydd a Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ceredigion
Bernadine Rees OBE	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jill Paterson	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Comisiynu, Gofal Sylfaenol a Therapiau a Gwyddorau Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tracey Price	Cyfarwyddwr, MIND Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro
Melanie Minty	Swyddog Polisi, Fforwm Gofal Cymru
Martyn Pengilley	Cyngor Gofal Cymru
Steven Griffiths	Cynrychiolydd gofalwyr
Alan Thomas	Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau
James Tyler	Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau

Blaenoriaethau strategol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi mabwysiadu 5 blaenoriaeth strategol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion craidd canlynol:

- Cyflymu'r broses o integreiddio ledled y rhanbarth mewn ymateb i gyfleoedd sy'n deillio o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Cefnogi arloesedd a rhannu arferion effeithiol
- Adeiladu ar lwyddiant a gofnodwyd mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth
- Cefnogi dull 'unwaith ac am byth' lle bo'n bosibl
- Gwneud y gorau o'r gallu, y sgiliau a'r wybodaeth sydd yn y rhanbarth

Gwelir cynnydd eisoes ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth ac mae cynlluniau rhaglen manwl yn cael eu datblygu i fwrw ymlaen â'r gwaith. Darperir manylion pellach am y rhain a meysydd gwaith eraill y mae'r Bwrdd yn arwain arnynt isod.

Blaenoriaeth 1: Comisiynu integredig

Amcan lefel uchel:

Datblygu dulliau integredig ar draws y cylch comisiynu, yn cynnwys cynlluniau strategol, asesiad o anghenion, hwyluso'r farchnad, caffael a rheoli ac adolygu contract.

Cynnydd hyd yn hyn:

- Wedi cwblhau Asesiad Poblogaeth cychwynnol Gorllewin Cymru
- Wedi llunio datganiadau sefyllfa'r farchnad rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn, gwasanaethau anabledd dysgu a gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth
- Wedi cynnal archwiliad o gapasiti cartrefi gofal preswyl a nyrsio
- Wedi cynnal asesiad o gomisiynu, capasiti a sgiliau ledled y rhanbarth

Y camau nesaf:

- Datblygu neu adolygu datganiadau rhanbarthol o fwriad ar gyfer gwasanaethau allweddol
- Datblygu cynllun ardal rhanbarthol mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth
- Llunio rhagor o ddatganiadau sefyllfa'r farchnad rhanbarthol
- Symud tuag at gontractau gwasanaeth rhanbarthol
- Datblygu safonau gofal rhanbarthol a fframweithiau sicrhau ansawdd, yn cynnwys uwchgyfeirio pryderon
- Datblygu dull rhanbarthol o 'dyfu' menter gymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a gwasanaethau trydydd sector
- Sefydlu fforwm darparwyr strategol ar gyfer y rhanbarth i gefnogi sgwrs barhaus gyda darparwyr am fodolau gwasanaeth y dyfodol a sut y gellid eu gweithredu o bosib
- Meithrin sgiliau drwy raglenni hyfforddi a datblygu rhanbarthol

Blaenoriaeth 2: Arian cyfun

Amcan lefel uchel:

Datblygu trefniadau partneriaeth lleol a rhanbarthol, wedi'u cefnogi gan arian cyfun, i ddatblygu gwaith comisiynu a darparu integredig.

Cynnydd hyd yn hyn:

- Mae rhaglen wedi'i chyflwyno i integreiddio gwasanaethau pobl hŷn yn llawn yn Sir Gaerfyrddin

Y camau nesaf:

- Bwrw ymlaen â'r gwaith o integreiddio gwasanaethau pobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin a sefydlu trefniadau ariannu cyfun
- Sefydlu trefniadau ariannu cyfun ar gyfer swyddogaethau cartrefi gofal i bobl hŷn ledled y rhanbarth
- Ystyried cyfleoedd pellach i integreiddio a chyfuno arian mewn meysydd gwasanaeth eraill

Blaenoriaeth 3: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Amcan lefel uchel:

Sefydlu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y gorllewin

Cynnydd hyd yn hyn:

- Wedi cynnal archwiliad sylfaenol o drefniadau a oedd yn bodoli cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth ym mhob awdurdod lleol
- Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth datblygedig ar waith ledled y Gorllewin
- Y rhanbarth wedi mabwysiadu porth gwybodaeth Dewis
- Wedi sefydlu cysylltiadau rhwng Dewis a chyfeiriadur gwasanaethau'r trydydd sector, Infoengine

Y camau nesaf:

- Lansio porth gwybodaeth Dewis yn rhanbarthol a'i hyrwyddo ledled y sectorau

- Datblygu cynllun gweithredu canoldymor ar gyfer Dewis a fydd yn cynnwys creu cysylltiadau a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â mentrau eraill fel 111 a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
- Datblygu safonau rhanbarthol cyson i wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Gwerthuso effaith gwahanol ddulliau o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y rhanbarth a rhannu arferion gorau

Blaenoriaeth 4: Gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Amcan lefel uchel:

Gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (system reoli gofal integredig wedi'i datblygu'n genedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol) ledled y 3 awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Cynnydd hyd yn hyn:

- Y system yn fyw yng Ngheredigion o fis Awst 2016
- Ymrwymiad strategol i fabwysiadu'r system gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Wedi penodi rheolwr gweithredu rhanbarthol

Y camau nesaf:

- Cynnal arfarniad llawn o'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r system ledled y rhanbarth
- Datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol
- Cyfrannu at drefniadau llywodraethu cenedlaethol a dylanwadu ar gynllun parhaus y system i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn gost-effeithiol ac yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Blaenoriaeth 5: Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

Amcan lefel uchel:

Ailfodelu gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn y Gorllewin fel eu bod yn cynnig gofal a chymorth datblygedig drwy'r dydd a'r nos, bob dydd o'r wythnos, i ffwrdd o ofal sefydliadol, gan hyrwyddo annibyniaeth a chofleidio egwyddorion 'cynnydd'

Cynnydd hyd yn hyn:

- Wedi ymgysylltu'n drylwyr ar ffurf darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl y rhanbarth yn y dyfodol, gan arwain at fodel a ffefrir yn y dyfodol sy'n cynnwys un pwynt mynediad, asesiad rhanbarthol ac unedau triniaeth a chanolfannau iechyd

meddwl cymunedol sydd ar agor drwy'r dydd a'r nos, bob dydd o'r wythnos ym mhob sir

- Wedi sefydlu rhaglen 'ailgynllunio anabledd dysgu' rhanbarthol a fydd yn adolygu modelau gwasanaeth cyfredol, yn ailfodelu darpariaeth asesu a seibiant, yn lleihau dibyniaeth ar ofal sefydliadol ac yn cynyddu'r ystod o opsiynau tai a chymorth ledled y rhanbarth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar sail Datganiad o Fwriad rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu a luniwyd yn 2014
- Wedi cwblhau datganiad sefyllfa'r farchnad rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu

Y camau nesaf:

- Ymgynghoriad cyhoeddus ar y model gwasanaethau iechyd meddwl, i ddechrau ym mis Mai 2017
- Ymgynghori â rhanddeiliaid ar weledigaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, yn cynnwys gweithdy i randdeiliaid yng Ngwanwyn 2017

Sicrhau newid

Er mwyn sicrhau arweiniad clir a bod momentwm yn cael ei gynnal wrth gyflawni'r flaenoriaethau, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi nodi asiantaeth 'pennu cyflymder' ar gyfer pob blaenoriaeth sydd, yn sgil gwaith cyfredol, mewn sefyllfa dda i arwain y gwaith o weithredu a rhannu dysgu ledled y rhanbarth. Sicrhawyd cyllid o Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Canolraddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau ac mae capasiti rheoli rhaglen benodol yn cael ei gyflwyno.


O dan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol mae'r Bwrdd Cyflawni Rhaglen Integredig sy'n cynnwys cynrychiolwyr ail haen o'r asiantaethau partner. Mae'r Bwrdd Cyflawni'n goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth ac yn monitro cynnydd, gan ddarparu adroddiadau eithrio i'r Bwrdd Partneriaeth fel bo angen. Mae hefyd yn darparu cyfrwng i rannu arferion a chydweithio ledled y rhanbarth mewn perthynas â gofynion allweddol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Enghreifftiau o hyn yw datblygu fframwaith atal strategol a rennir ar gyfer y rhanbarth a gwerthusiad parhaus o wahanol fodelau gweithredu ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Mae cysylltiadau'n cael eu datblygu gyda'r 3 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol i sicrhau synergedd rhwng blaenoriaethau ac amcanion y bartneriaeth a nodau llesiant ehangach a ddatblygir mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol hefyd wedi nodi'r angen i gryfhau cysylltiadau â threfniadau rhanbarthol cyfredol mewn perthynas ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a Chefnogi Pobl. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu dros y cyfnod nesaf. Bydd cysylltiadau strategol hefyd yn cael eu cynnal gyda threfniadau cydweithredu perthnasol fel Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth a'r Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd.

Mae Uned Cydweithredu Rhanbarthol, a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn darparu cymorth cynghori a rhaglen strategol i'r bartneriaeth. Mae'r Uned yn cael ei hariannu

drwy'r Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid yn bennaf, a fydd yn trosglwyddo i awdurdodau lleol drwy'r grant cymorth refeniw o fis Ebrill 2017. I fodloni'r gofyniad yn Rhan 9 o'r Ddeddf i bartneriaid ddarparu digon o adnoddau i gefnogi trefniadau partneriaeth, mae'r 3 awdurdod lleol wedi cytuno i gyfuno eu dyraniadau mewn un gronfa ranbarthol.

Strwythur cyfredol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru



Sefydlu'r trefniadau rhanbarthol newydd

Buddsoddwyd i gefnogi pob aelod o'r bartneriaeth i ddeall eu rôl a'u dyletswyddau statudol yn llawn o dan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar sicrhau bod cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar y Bwrdd yn deall y cyd-destun deddfwriaethol ac yn dod yn gyfarwydd â'r amcanion o dan bob blaenoriaeth strategol. Yn dilyn rhaglen sefydlu gynhwysfawr, cafwyd briffiau manwl cyn cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth a sesiynau dibriffio i drafod canlyniadau'r cyfarfodydd a sut y gellir lledaenu'r rhain yn ehangach i grwpiau defnyddwyr a gofalwyr yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd sesiwn ddatblygu ar y cyd i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Cyflawni Rhaglen Integredig ym mis Mawrth 2017, gan ddarparu cyfle ar gyfer:

- Rhannu trafodaeth am bwrpas y bartneriaeth a'i chyfrifoldebau statudol
- Myfyrio ar gynnydd a wnaed gan y bartneriaeth hyd yn hyn a meysydd allweddol i'w gwella
- Ystyried y berthynas rhwng y 2 Fwrdd
- Ystyried y prif negeseuon o'r asesiad poblogaeth (gweler isod) a sut y byddai'r cynllun ardal arfaethedig yn mynd i'r afael â'r rhain

Bydd sesiynau dilynol yn cael eu trefnu yn y flwyddyn i ddod er mwyn ymgorffori'r trefniadau newydd ymhellach, sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan y ddau Fwrdd,

adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodi meysydd ychwanegol ar gyfer ffocws rhanbarthol.

3. Y Gronfa Gofal Canolraddol

Sefydlwyd Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru 3 blynedd yn ôl. Yn 2016-17 mae wedi dod â £7.8 miliwn i'r rhanbarth i gefnogi'r canlynol:

- Cydgysylltiad gwell rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai ac addysg, y trydydd sector a'r sector annibynnol
- Cryfhau cydnherthed y system gofal heb ei drefnu
- Sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i fyw'n annibynnol a'u hyrwyddo (yn cynnwys darparu mwy o addasiadau amserol yn y cartref) mewn ymateb i atgyfeiriadau o wasanaethau iechyd a gofal
- Cefnogi adferiad a gwellhad drwy ddarparu mwy o wasanaethau ail-alluogi, yn y cartref a'r gymuned drwy gyfleusterau cam-i-lawr / gwella

Mae arian ar gael i gynlluniau sy'n cefnogi pobl fregus a hŷn, pobl ag anabledau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth.

Yn y gorllewin, mae rhaglen y Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer 2016-17 yn cynnwys 3 elfen, neu thema, sy'n adlewyrchu egwyddorion a rennir sy'n sail i'n dull o ddarparu gofal canolraddol.

Y rhain yw:

- Atal yn y Gymuned
- Ailalluogi Creiddiol
- Lleihau Derbyniadau, Isgyfeirio a Chyflymu'r Broses o Ryddhau. Mae'r rhain yn cefnogi pobl hŷn fregus, pobl ag anabled dysgu a phlant ag anghenion cymhleth

Mae ffrydiau gwaith o fewn y rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredu modelau gwasanaeth arloesol, ond hefyd yn cynnwys datblygu trefniadau comisiynu rhanbarthol, integredig ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Darparu timau aml-broffesiynol ym mhob ysbyty cyffredinol yn y rhanbarth (Asesu Dewisiadau Eraill i Dderbyn) yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, Tîm y Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ac Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli a Thîm Cymorth Aml-asiantaeth yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd) sy'n gweithio i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi o bobl hŷn

fregus a chyflymu'r broses o ryddhau'n ddiogel i'r gymuned pan roedd rhaid cael cyfnod yn yr ysbyty

- Gofal traws-sector arloesol fel Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro, dan arweiniad cydweithrediad trydydd sector a gyd-gysylltir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, sy'n darparu trafndiaeth a chymorth setlo i bobl hŷn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac yn cydgysylltu cymorth lefel isel cyfyngedig o ran amser yn cynnwys addasiadau tai
- Astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu panel anghenion cymhleth rhanbarthol ar gyfer trefniadau comisiynu gwasanaethau plant a rhanbarthol, gan adeiladu ar ganlyniadau datganiad rhanbarthol o sefyllfa'r farchnad a gynhaliwyd yn 2015
- Ailfodelu sylfaenol o wasanaethau anabledd dysgu yn Sir Benfro, gan gefnogi symudiad i ffwrdd o ofal sefydliadol a chyfathrebu ac ymgysylltu gwell â defnyddwyr
- Sefydlu gwasanaethau synhwyrdd i bobl ag anabledd dysgu yn Sir Gaerfyrddin
- Datblygu gwasanaethau therapiwtig dan arweiniad y trydydd sector i bobl ag anabledd dysgu ac anghenion cymhleth, yn cynnwys therapïau celfyddydau, crefftau a dawns

Mae strwythur llywodraethu cadarn ar waith i gefnogi'r rhaglen. Mae templedi sefydlu ac adrodd ar brosiect manwl wedi'u paratoi ar gyfer pob prosiect yn nodi'r prif amcanion, canlyniadau disgwylidig, proffiliau ariannol a cherrig milltir allweddol. Mae pob partner wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi disgwyliadau ac atebolrwydd y gwahanol randdeiliaid wrth gyflawni a monitro'r rhaglen.

Er bod tystiolaeth o weithgarwch sylweddol mewn cynlluniau cyfredol, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella dulliau o fonitro ac adrodd ar effaith a chanlyniadau prosiectau. Gan fabwysiadu argymhellion y gwerthusiad allanol o raglen blwyddyn 1 a gynhaliwyd yn 2015, mae fframwaith perfformiad a chanlyniadau ar y cyd yn cael ei ddatblygu, a fydd yn hwyluso gwaith craffu'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac yn llywio adroddiadau'r dyfodol i Lywodraeth Cymru.

Mae'n hanfodol bod y trydydd sector yn cymryd rhan ym mentrau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae prosiectau fel PIVOT, Gofal a Thrsio a Gweithwyr Cymorth Cymunedol yn Sir Benfro, Hwyluswyr Integreiddio Trydydd Sector yng Ngheredigion a Chydgysylltwyr Cydnerthu Cymunedol yn Sir Gaerfyrddin, yn dangos y gwerth ychwanegol a roddir i gymunedau gan sefydliadau sy'n deall ac yn gwybod beth yw anghenion y cymunedau lle maent yn gweithio, yn ymgysylltu â'r rhai o'r rhai anoddaf i'w helpu ac yn sicrhau cymaint o adnoddau â phosibl gan wirfoddolwyr amrywiol.

Yn ogystal â dulliau integredig, cyd-gynhyrchu ac arbedion costau a sicrhawyd gan y prosiectau mawr, mae rhai o fentrau bach y rhaglen wedi sicrhau manteision sylweddol o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r prosiect Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, a ddechreuodd drwy uwchsgilio gweithwyr gofal mewn un cartref gofal yn Llanelli i reoli clwyfau anghymhleth, gan ryddhau amser nyrsys ardal o ganlyniad, nawr yn cael ei gyflwyno ledled y sir. Mae staff hefyd yn cael eu hyfforddi i fwydo drwy diwb PEG ac mae cyfleoedd hyfforddi ychwanegol yn cael eu nodi. Gyda gwariant cymharol fach o £20,000, nid yn unig mae hyn wedi gwella canlyniadau i drigolion, ond mae wedi gwella morâl y staff a chyfraddau cadw gweithwyr gofal hefyd.

Bu cyllid cyfalaf hefyd o gymorth i wella cyfarpar cymunedol, adnewyddu llety i gefnogi gwasanaethau anabledd dysgu gwell ac atebion technoleg arloesol yn cynwnys meddalwedd rhagfynegol i feddygon teulu a gwelliannau TG i gefnogi gweithio ystwyth i staff iechyd, ymysg nifer o atebion technegol eraill.

Astudiaeth Achos: PIVOT (Sir Benfro)

Ffermwr godro 81 oed yw Mr B sy'n byw gartref gyda'i wraig; mae ganddo glefyd cyhyrau dirywiol a Chlefyd Parkinson. Bu yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys yn ddiweddar ar ôl iddo gwmpo. Er bod ei deulu'n byw gerllaw maen nhw hefyd yn hen ac mae ganddyn nhw hefyd broblemau iechyd; mae'r plant wedi tyfu ac yn byw i ffwrdd.

Ar ôl iddo gwmpo'n ddiweddar a threulio diwrnod yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys, atgyfeiriwyd Mr B i gynllun PIVOT.

Nododd yr adran ddamweiniau ac achosion brys y gallai fod yna broblemau a risgiau yn y cartref ac y gallai ei wraig elwa'n wirioneddol ar ragor o gymorth ac arweiniad er mwyn gofalu am ei gŵr ac i'w gadw yn yr amgylchedd teulu diogel. Mae'n amlwg bod Mrs B dan lawer o straen ac wedi blino, roedd Mr B yn codi llawer yn y nos gyda'i broblemau ymataliaeth a dim ond un ymweliad gan ofalwr roedden nhw'n ei gael bob dydd.

Nodwyd risgiau diogelwch yn yr eiddo, ac roedd Mrs B hefyd yn colli cwmnïaeth ei gyd-ffermwyr a oedd wedi ymddeol.

Ar ôl ymweliad PIVOT newidiodd y sefyllfa gartref er gwell, gyda Mrs B yn cael cymorth a Mr B yn cael rhywfaint o seibiant, ac fe wnaed y tŷ yn fwy diogel. Cynhaliwyd gwiriad diogelwch llawn yn y tŷ; gosodwyd rheiliau a chyfarpar ychwanegol, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o gwmpo a gorfod mynd i'r adran ddamweiniau ac achosion brys eto. Cafodd Mrs B gymorth ac arweiniad ychwanegol er mwyn helpu ei gŵr yn sgil yr atgyfeiriad i'r grŵp Parkinson's lleol, ac yn y clwb/cymdeithas Parkinson's roedd Mr B yn gallu troi at nyrs Parkinson's arbenigol a sgwrsio ag eraill oedd â phroblemau iechyd tebyg iddo ef.

Atgyfeiriwyd Mr B i'r awdurdod lleol am ddiweddariad Therapi Galwedigaethol. Yn dilyn hyn, mae'r gwasanaeth/nyrs Nightingale wedi ymweld ac wedi darparu cymhorthion ymataliaeth ar gyfer y nos, sy'n gwneud bywyd Mrs B yn haws, mae'n cysgu mwy ac yn gorfod golchi llawer llai. Maent hefyd yn ystyried cael mwy o ofalwyr i ymweld er mwyn lleihau llwyth gwaith Mrs B.

Atgyfeiriwyd Mr B i Croesffyrdd ac mae Mr a Mrs B ar y rhestr aros i dderbyn mwy o ofal a seibiant fel bod Mrs B yn gallu cael seibiant.

Cysylltodd PIVOT â swyddfa leol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr i weld a allen nhw helpu – roedd Mr B yn dymuno mynd i'r Farchnad o bryd i'w gilydd i weld ei hen ffrindiau a gweld yr anifeiliaid. Roedd NFU yn fwy na pharod i helpu, mae ymweliad â'r farchnad wrthi'n cael ei drefnu, gyda'r NFU yn darparu trafndiaeth, a ffermwr ifanc cryf i gludo Mr B a'i wthio yn ei gadair olwyn. Bydd yn ddiwrnod i'r brenion i Mr B ac yn rhoi ychydig o seibiant i Mrs B.

Darparodd PIVOT ffurflen gofrestru Gofalwyr i Mrs B a'i chynghori i'w chwblhau a'i rhoi i'r meddyg teulu – nawr fod hyn wedi'i wneud mae'r meddyg teulu a rhwydwaith cymorth y feddygfa'n ymwybodol bod Mrs B yn ofalwr ac yn gallu helpu a chynghori pan fo angen.

Astudiaeth achos: Prosiect Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Sir Gâr)

Mae un o drigolion cartref gofal, J.O., sy'n 83 oed, wedi cael briwiau pwysu ar ei sodlau ers symud yno yn 2012. Roedd nyrsys ardal yn ymweld â'r cartref bob dydd i aildrin y clwyf. Byddai'r sodlau'n gwella i ryw bwynt ond yna'n gwaethygu'n gyflym nes ei fod yn friw pwysu gradd 4.

Cyflwynwyd cynllun gweithredu ar ôl i staff y cartref gofal dderbyn diwrnod o hyfforddiant/ymwybyddiaeth a ddarparwyd drwy'r prosiect, a thrwy weithio ochr yn ochr â'r nyrsys ardal i aildrin sodlau'r gŵr. Roedd hyn yn cynnwys ei droi ar fatres aer a chodi ei goesau fel nad oeddynt yn cyffwrdd unrhyw arwyneb a chyflwynwyd llif aer i helpu'r broses wella hefyd.

Byddai J.O. yn gwthio ei hun yn ei gadair olwyn hefyd gan ddefnyddio ei draed i symud o gwmpas. Archebwyd codydd ar gyfer un droed i sicrhau bod ei sawdl yn hofran drosto. Gyda chyingor a chymorth gan yr adran Iechyd Galwedigaethol atgoffwyd J.O. bob dydd i osod ei droed arall ar y plât. Darparwyd stôl droed yn ei ystafell wely iddo allu codi ei goesau ond parhau i allu symud yn annibynnol.

Roedd J.O. yn fwy parod i dderbyn cyngor staff y cartref gofal gan ei fod yn eu nabod a'i fod yn ymddiried ynddynt. Paratowyd cynllun gofal newydd gan y rheolwr a'r uwch weithiwr cymorth fel bod yr holl staff yn cael cyfarwyddiadau i'w dilyn ar sut i ofalu am ei sodlau. Maen nhw wedi gwella i'r fath raddau mai dim ond unwaith yr wythnos y mae'n rhaid i'r nyrsys gymryd golwg arny'n nhw. O ganlyniad, mae J.O. yn fwy annibynnol, er enghraifft mae'n gallu cael bath o dan oruchwyliaeth.

Astudiaeth Achos: Dewisiadau Asesu Eraill i Dderbyn (A2AA) Ceredigion

Yn y ystod y cyfarod AA2A am 9.30am gyda'r Uned Penderfyniadau Clinigol (Ysbyty Cyffredinol Bronglais) nodwyd bod dyn wedi cyrraedd yr adran ddamweiniau ac achosion brys am 23.30 y noson cynt ac wedi'i symud i'r Uned ar ôl cwmpo gartref. Roedd y claf yn pryderu sut byddai'n ymdopi gartref ar ôl cwmpo.

Cytunodd A2AA y byddai'r aelod o'r tîm therapi galwedigaethol yn arwain yr achos drwy gael sgwrs 'Beth sy'n Cyfrif' gyda'r claf.

Cynhaliwyd yr asesiad cychwynnol am 9.40 a gwelwyd bod y dyn wedi colli hyder ar ôl cwmpo a'i fod yn pryderu y byddai'n cwmpo eto pe bai'n mynd adref.

Cynhaliodd y therpaydd galwedigaethol asesiad lle gwelwyd bod y dyn yn gallu gwneud holl weithgareddau bywyd bob dydd yn annibynnol, ond roedd hi'n briodol ei atgyfeirio i Dîm Adnoddau Cymunedol Craidd y Trydydd Sector i gael mynediad i wasanaethau fel Y Groes Goch Brydeinig i helpu i feithrin ei hyder. Bu'r therpaydd galwedigaethol yn trafod gyda'r claf i gael larwm gwddf yn y cartref ond gwrthododd hyn gan nad oedd am osod llinell dir yn yr eiddo oherwydd y gost.

Dychwelodd y claf i'w gartref tua 15.30 (o fewn 24 awr).

Ffoniodd y tîm AA2A y claf gartref drannoeth. Roedd wedi bod yn ei siop leol i bryn~~u~~⁴ ychydig o fwyd ac roedd tîm Adnoddau Cymunedol Craidd y Trydydd Sector wedi trefnu i ymweld ag ef eto drannoeth.

Mae adroddiadau chwarterol manwl ar gyflawni rhaglen Cronfa Gofal Cymunedol Gorllewin Cymru'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol – gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd yr adroddiad.

4. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) wedi'u sefydlu ledled Cymru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Maent yn darparu cymorth holistaidd i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth yn deillio o faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu salwch meddwl, anabledau dysgu neu drais domestig rhieni, gan eu helpu i aros gyda'i gilydd drwy eu hannog i gymryd camau cadarnhaol i wella eu bywydau. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio dulliau gweithredu di-dor ledled y gwasanaethau plant ac oedolion a gyda Byrddau Iechyd Lleol, gan sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd a rhagor o atebolrwydd wrth ddarparu cymorth i deuluoedd. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol ddyletswydd i hyrwyddo integreiddio cymorth i deuluoedd drwy ddefnyddio'r model IFSS ac i sicrhau bod gofynion statudol yn ymwneud ag IFSS yn cael eu cyflawni ledled eu hardal.

Mae Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSTs) yn dwyn ynghyd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ac maent wedi eu sefydlu ym mhob un o'r tair ardal awdurdod lleol yn y Gorllewin ers 2012. Mae timau lleol yn cael eu datblygu o amgylch strwythur cyffredin sy'n adlewyrchu gofynion y Mesur, gyda rhai gwahaniaethau lleol sy'n adlewyrchu'r boblogaeth leol, lefelau angen a threfniadau gwasanaeth ehangach.

Mae partneriaeth IFSS ranbarthol ar waith, sy'n cynnwys ardal Powys, a Chyngor Sir Ceredigion yw'r partner arweiniol. Yn y rôl hon, mae'r Cyngor yn hwyluso grŵp rheolwyr IFSS rhanbarthol sy'n darparu amgylchedd dysgu gweithredol ar gyfer y rhai sy'n helpu i ddarparu IFSS, ac mae'n cydgysylltu adroddiadau ar gynnydd bob chwarter ar gyfer y bartneriaeth ranbarthol a Llywodraeth Cymru.

Strwythurau IFSS yn y Gorllewin

Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Sir Benfro
<ul style="list-style-type: none">• Rheolwr tîm (1 cyfwerth ag amser llawn)• Uwch ymarferwyr (3 cyfwerth ag amser llawn)• Ymarferydd iechyd meddwl• (1 cyfwerth ag amser llawn)• Gweinyddwr (1 cyfwerth ag amser llawn)	<ul style="list-style-type: none">• Gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol (1 cyfwerth ag amser llawn)• Arbenigwr iechyd (0.8 cyfwerth ag amser llawn)• Gweithiwr cymdeithasol (1 cyfwerth ag amser llawn)	<ul style="list-style-type: none">• Gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol (1 cyfwerth ag amser llawn)• Arbenigwr iechyd – Camddefnyddio sylweddau (1 cyfwerth ag amser llawn)• Uwch-weithiwr cymdeithasol (1 cyfwerth ag amser llawn)• Uwch-weithiwr prosiect (0.8 cyfwerth ag amser llawn)

Mae pum canlyniad craidd wedi'u nodi ar gyfer y gwasanaeth, sef:

- **Canlyniad 1** – Darparu cyngor ac ymgynghoriad i weithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio ac yn cynrychioli teuluoedd sy'n agored i niwed
- **Canlyniad 2** – Darparu asesiadau, cymorth ac ymyriadau priodol i deuluoedd
- **Canlyniad 3** – Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd
- **Canlyniad 4** – Datblygu sgiliau a gwybodaeth y gweithlu
- **Canlyniad 5** – Dangos newid cynaliadwy mewn teuluoedd

Mae cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn yn cael ei fonitro drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad amrywiol. Mae perfformiad ar 31 Rhagfyr 2016 (y cyfnod adrodd data diweddaraf) wedi'i nodi isod:

Cyfansymiau CANLYNIAD 1


Bydd yr IFSS yn darparu cyngor ac ymgynghori i weithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio ac yn cynrychioli teuluoedd sy'n agored i niwed

Nifer y teuluoedd newydd sydd wedi'u hatgyfeirio: 104


Nifer y plant mewn teuluoedd sydd wedi'u hatgyfeirio: 173

Nifer y plant heb eu geni mewn teuluoedd sydd wedi'u hatgyfeirio: 13



Teuluoedd newydd sydd wedi'u hatgyfeirio



Nifer y plant a'r plant heb eu geni mewn teuluoedd newydd sydd wedi'u hatgyfeirio



Mae'r graff hwn yn dangos cyfraddau atgyfeirio cymharol yn y rhanbarth ar sail flynyddol a pharhaus:



Cyfansymiau CANLYNIAD 2


Bydd yr IFSS yn darparu asesiadau, cymorth ac ymyriadau priodol i deuluoedd

Nifer y teuluoedd sy'n cychwyn y cam 72 awr yw 53

Statws y 99 o blant ar ddechrau'r cam 72 awr (Gall plant fod â mwy nag un statws)

- Plant sydd angen gofal a chymorth: 31
- Plant ar y gofrestr amddiffyn plant: 58
- Plant sy'n derbyn gofal: 10
- Plant yn y broses PLO: 15

Statws plant: cam 72 awr



Cyfansymiau CANLYNIAD 3


Bydd yr IFSS yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd

Nifer y teuluoedd yn cychwyn Cam 2: 30


Statws y 52 o blant ar ddechrau cam 2 (Gall plant fod â mwy nag un statws)

- Plant sydd angen gofal a chymorth: 16
- Plant ar y gofrestr amddiffyn plant: 30
- Plant sy'n derbyn gofal: 4
- Plant yn y broses PLO: 2

Teuluoedd yn cychwyn Cam 2



Statws Plant: Cam 2





**Cyfansymiau CANLYNIAD
4**

**Bydd yr IFSS yn datblygu
sgiliau a gwybodaeth y
gweithlu**

Nifer y rhaglenni dydd a
hwyluswyd: 4

Nifer y rhaglenni 4 diwrnod a
hwyluswyd: 1

Nifer y staff yn mynychu
hyfforddiant y Gweithlu
Ehangach: 33



Sgoriau Gwerthuso Hyfforddiant

Cyfanswm y sgôr bosibl	Cyfanswm y sgôr wirioneddol	Categori	Sgôr gyfartalog allan o 5
15	14.95	Defnyddiol	100%
15	14.65	Clir	98%
15	14.95	Gwerthfawr	100%
		Argymell	100%

Cyfansymiau CANLYNIAD 5

Bydd yr IFSS yn dangos newid cynaliadwy mewn teuluoedd

Cyfanswm yr achosion sydd wedi'u cau: 57

Nifer y teuluoedd yn cynnal newid mewn achosion a gafodd eu cau cyn deuddeg mis: 9

Nifer y teuluoedd yn cynnal newid ar ôl cyfnod cau'r achos 12 mis: 23

Nifer y teuluoedd lle nad yw'r prif fater atgyfeirio yn bryder amddiffyn plant bellach wrth gau'r achos: 25

Nifer y plant mewn teuluoedd ar ddiwedd Cam 2 yn y categorïau canlynol:
(Gall plant fod â mwy nag un statws)


Wedi aros yng nghartref y teulu: 50

Wedi'u symud o gartref y teulu: 2


Wedi dychwelyd i gartref y teulu: 6

Wedi aros yn y broses PLO: 1

Canlyniadau wrth gau'r achos
(diwedd Cam 2)



Statws y plant wrth gau'r achos
(diwedd Cam 2)



Mae IFSS wedi'i sefydlu ymhellach ledled y rhanbarth yn 2016-17, ac mae'r meini prawf atgyfeirio wedi'u hymestyn i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Hefyd, mae gwasanaethau yn cyfateb yn well i wasanaethau craidd ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae llwyddiannau penodol yn cynnwys:

- Sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn aros yng nghartref y teulu ar ddiwedd ymyriad IFSS
- Rhyngweithio'n well â'r llysoedd wrth benderfynu'r camau gweithredu gorau ar gyfer plant unigol (Sir Gaerfyrddin)
- Ymgorffori dull gweithredu IFSS sy'n seiliedig ar gryfderau mewn hyfforddiant cyffredinol ar ofynion y Ddeddf ym maes asesu (Ceredigion)
- Datblygu model 'ymyriad cryno' arbrofol sy'n helpu teuluoedd yn y broses Amddiffyn Plant i ddatblygu eu cynllun diogelwch eu hunain ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant (Sir Benfro)

Mae hanes teuluoedd yn cael ei gofnodi'n rheolaidd ar ôl i'w hymyriad IFSS ddod i ben er mwyn gwerthuso effaith y gwasanaeth a rhannu ymarfer llwyddiannus ledled y rhanbarth a thu hwnt. Mae astudiaethau achos enghreifftiol wedi'u cynnwys isod.

Aeth **IFSS Sir Gaerfyrddin** ati i gynorthwyo pâr gyda hanes o gamddefnyddio sylweddau a oedd yn disgwyl babi. Roedd gan y fam ddau o blant a oedd wedi'u mabwysiadu ac roedd gan y tad blentyn yn ei ardegau yr oedd ganddo gysylltiad cyfyngedig ag ef oherwydd y problemau camddefnyddio sylweddau. Yn ystod y beichiogrwydd, cafodd y pâr eu cynorthwyo i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau, a datblygwyd cynllun diogelwch a oedd yn nodi mesurau diogelu amrywiol. Nodwyd aelodau o'u teuluoedd estynedig i ddarparu cymorth anffurfiol yn ystod y broses. Erbyn i ymyriad yr IFSS ddirwyn i ben, roedd y babi wedi'i eni ac yn ffynnu ac roedd gan y fam swydd ran-amser ac roedd wedi ailsefydlu cysylltiad uniongyrchol â'i dau o blant eraill.

Derbyniodd **IFSS Ceredigion** atgyfeiriad ar ôl i famgu a oedd yn unig ofalwr ei thri o wyrion gymryd gorddos o feddyginiaeth ar bresgripsiwn. Diolch i gymorth yr IFSS, llwyddodd y fenyw i ddatrys nifer o broblemau emosiynol hirdymor a oedd wedi arwain at ddibyniaeth ar y cyffuriau presgripsiwn. Rhoddwyd trefniadau gofal seibiant rheolaidd ar waith ynghyd â rhaglen gwnsela ar gyfer y fenyw. Erbyn diwedd ymyriad yr IFSS, roedd hi wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio ei meddyginiaeth ac roedd ei hiechyd meddwl wedi gwella'n sylweddol. Roedd y plant yn derbyn gofal da ac yn hapus yn y cartref.

Derbyniodd **IFSS Sir Benfro** atgyfeiriad yn ymwneud â theulu a oedd yn cynnwys mam, llystad a dau fab ifanc. Roedd y fam wedi bod yn yfed yn drwm ac roedd y llystad yn feirniadol iawn o'i hymddygiad. Diolch i gymorth yr IFSS, daeth y tad i ddeall sut y gallai ddarparu cymorth cadarnhaol heb wrthdaro â'i bartner er mwyn ei helpu i oresgyn ei dibyniaeth ar alcohol. O ganlyniad i'r ymyriad, nododd y plant nad oedd eu rhieni yn ffraeo cymaint a'u bod yn teimlo'n llai pryderus yn y cartref. Roedd hyn yn cymhell y fam i wneud newidiadau parhaus i'w ffordd o fyw.

Mae adroddiadau manwl ar ddarpariaeth IFSS Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Gydweithredu Ranbarthol – mae manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd yr adroddiad.

5. Mesurau atal a datblygu cydnerthedd cymunedol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn credu'n gryf bod angen i ethos atal – cefnogi pobl ar ddechrau'r broses i'w helpu eu hunain, sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac osgoi'r angen am ofal hirdymor – fod yn ganolog i'w holl waith. Hyd yn oed os oes angen gofal hirdymor ar unigolyn, mae angen darparu'r gofal hwn mewn ffordd sy'n helpu i alluogi'r unigolyn a hyrwyddo ei annibyniaeth i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Er mwyn sicrhau bod pob rhaglen yn seiliedig ar egwyddorion ataliol, mae'r bartneriaeth yn gallu manteisio ar lawer o waith arloesol ym maes atal sy'n cael ei ddatblygu mewn ardaloedd gwahanol o'r rhanbarth, gan gynnwys:

- Datblygu fframwaith strategaeth atal a chydnerthedd cymunedol yn Sir Gaerfyrddin, sy'n seiliedig ar egwyddorion craidd trugaredd, cysylltiad a chysylltedd
- Sefydlu cynghrair trydydd sector yng Ngheredigion, a fydd yn hybu ac yn cydgysylltu gofal a chymorth lefel isel ac yn hwyluso'r broses o roi gwasanaethau IAS ar waith yn y gymuned
- Cyflwyno strategaeth atal yn Sir Benfro a fydd yn cyfeirio pobl at gymorth yn y gymuned ac yn datblygu capasiti, sefydlu gwasanaethau IAA o ansawdd uchel a helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled y sir.

Mae gwaith mapio gwasanaethau ataliol rhanbarthol yn mynd rhagddo er mwyn helpu i wella cysondeb a hwyluso'r broses o rannu arferion effeithiol. Bydd y gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo drwy byrth Dewis ac Infoengine.

6. Gofalwyr

Hefyd, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth priodol ar gyfer gofalwyr mewn ffordd integredig ledled y rhanbarth. Mae Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth i ddatblygu strategaethau gwybodaeth ac ymgynghori rhanbarthol ar gyfer gofalwyr. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i helpu i ddatblygu'r strategaethau hyn. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn disodli'r Mesur, a bydd 2017-18 yn flwyddyn drosiannol gyda chyllid gweddilliol ar gael i gefnogi'r strategaethau rhanbarthol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, penderfynwyd manteisio ar y cyfle i ddiwygio trefniadau llywodraethu rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli, ac mae bwrdd darpariaeth gofalwyr newydd bellach o fewn cylch gwaith uniongyrchol y bartneriaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ddarparu cyfeiriad strategol a dyrannu cyllid yn ôl y gofyn i gefnogi'r agenda ar gyfer gofalwyr. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn manteisio ar sylfaen gadarn o waith partneriaeth arloesol yn y Canolbarth, gan gefnogi mentrau blaenllaw fel y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofal (IiC) achrededig a gynhelir mewn meddygfeydd, lleoliadau gofal eilaidd, fferyllfeydd ac ysgolion gyda'r nod o wella'r cymorth a roddir i ofalwyr. Mae IiC wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr sydd wedi'u nodi ledled y rhanbarth, a chynnydd o 40% mewn atgyfeiriadau meddygon teulu ar gyfer gofalwyr yr oedd angen cymorth arnynt rhwng 2015 a 2016.

7. Y gweithlu

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn nodi'n glir bod y broses o gyflawni ei flaenoriaethau yn dibynnu ar weithlu cynaliadwy sydd â'r sgiliau priodol ac sy'n gallu

ac yn barod i weithio ar draws y ffiniau traddodiadol er mwyn cefnogi'r modelau newydd o ofal a chymorth sydd eu hangen o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru. I gyflawni hyn, bydd angen dull gweithredu cydweithredol strategol ledled yr asiantaethau partner ym meysydd recriwtio a chadw staff, datblygu rolau a sgiliau newydd a datblygiad proffesiynol. Bydd defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol yn allweddol bwysig i sicrhau llwyddiant, gan gynnwys adnoddau sy'n cael eu darparu gan Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) Llywodraeth Cymru a chronfa Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth (SCiP) Cyngor Gofal Cymru.

Mae camau gweithredu cynnar y Bartneriaeth wedi cynnwys penodi Cydgysylltydd Gweithlu Rhanbarthol. Mae'r unigolyn hwn wedi cyflawni llawer, ac mae wedi mynd ati i wneud gwaith alinio strategol ar gyfer y rhaglenni SCWDP a SCiP, treialu rhaglen dysgu gweithredol arloesol gyda rheolwyr gofal yn y sector annibynnol, a gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid ledled y sector mewn perthynas ag agenda'r gweithlu. Mae dichonoldeb datblygu strategaeth gweithlu ar y cyd ar gyfer y bartneriaeth yn cael ei ystyried, ac mae gwaith maes cychwynnol yn mynd rhagddo i ofyn am farn rhanddeiliaid allweddol.

8. Dementia

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth ranbarthol ar ddementia, gan ddefnyddio mentrau lleol sy'n cynnwys cymunedau sy'n deall dementia. Bydd y strategaeth hon yn gysylltiedig â'r strategaeth genedlaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar at ddiben ymgynghori. Hefyd, bydd yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad diweddar Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – 'Dementia: Mwy na dim ond colli'r cof?'

9. Asesiad o'r Boblogaeth

O dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ym mhob partneriaeth ddyletsywydd i roi trefniadau ar waith i gynnal asesiad o'r angen am ofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr. Mae'n rhaid cynnal asesiad o'r boblogaeth unwaith ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r cyntaf erbyn 1 Ebrill 2017.

Mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio ar y gwaith o gynnal asesiad cychwynnol o'r boblogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Gweithredodd Cyngor Sir Caerfyrddin fel partner arweiniol, ac aeth yr IPDB ati i sefydlu cydbwyllgor i gytuno ar y broses o gynnal yr asesiad, dyrannu adnoddau i'w gefnogi a monitro cynnydd. Cytunodd y partneriaid statudol ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n eu hymrwymo i gymryd rhan yn ôl y gofyn er mwyn llunio'r asesiad.

Penodwyd rheolwr rhaglen allanol i gydgyssylltu'r broses rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2016. Sefydlwyd grwpiau thematig yn cynnwys cynrychiolwyr asiantaethau partner o'r sector statudol, a lle y bo'n ymarferol, y trydydd sector. Roedd pob grŵp thematig yn canolbwyntio ar un o'r meysydd canlynol:

- Gofalwyr
- Plant a phobl ifanc
- Iechyd ac anableddau corfforol
- Anableddau dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Pobl hŷn
- Nam ar y synhwyrâu
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Defnyddiwyd templed cyffredin i gynnal asesiadau manwl ym mhob un o'r meysydd hyn. Roedd yr asesiadau'n cynnwys:

- Dadansoddiad o boblogaeth bresennol y rhanbarth a'r tueddiadau demograffig sy'n cael eu rhagweld
- Yr angen a ragwelir am ofal a chymorth (a'r angen am gymorth yng nghyswllt gofalwyr), gan gynnwys gwasanaethau ataliol
- Aseiad o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd
- Bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a meysydd i'w gwella

Un o ystyriaethau allweddol yr aseiad oedd darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata ansoddol o ffynonellau gwahanol i lywio'r aseiad, gan gynnwys data Daffodil Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ystadegau Llywodraeth Cymru a chyfrifiad 2011. Er nad oedd modd cynnwys mwy na detholiad yn unig yn yr adroddiad, mae ystorfa ranbarthol yn cael ei datblygu i ddarparu'r amrywiaeth lawn o ddata sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y dyfodol gan y bartneriaeth. Roedd clywed safbwyntiau pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu y gall fod angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd â safbwyntiau eu gofalwyr, yn flaenoriaeth i'r aseiad. Aethom ati i weithio gyda'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth i gynnwys cwestiynau perthnasol mewn arolwg o breswylwyr a gynhaliwyd dros yr haf i lywio asesiadau llesiant sydd eu hangen o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dilynwyd hyn gan gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ddechrau'r hydref a oedd yn gyfle arall i'r rhai a fynychodd rannu eu safbwyntiau a'u pryderon.

Cafodd yr asesiadau unigol eu dwyn ynghyd mewn un adroddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Rhagfyr 2016, ac a gymeradwywyd wedyn gan y pedwar partner statudol. Mae canfyddiadau allweddol yr aseiad yn cynnwys y canlynol:

- Bydd yr angen am ofal a chymorth yn y Gorllewin yn cynyddu'n sylweddol dros y degawdau nesaf oherwydd, er enghraifft, y cynnydd enfawr yn niferoedd

rhagamcanol pobl hŷn a chynnydd yn nifer y bobl iau sydd ag anghenion cymhleth

- Mae sawl her yn bodoli o safbwynt datblygu gweithlu cadarn a chynaliadwy i roi'r newid gofynnol ar waith
- Bydd angen newidiadau sylfaenol i'r dull o ddarparu gofal a chymorth er mwyn bodloni gofynion a sicrhau'r canlyniadau llesiant gorau ar gyfer unigolion
- Mae natur wledig y rhanbarth yn creu heriau penodol, er enghraifft wrth geisio sicrhau mynediad teg i ofal a chymorth a mynd i'r afael ag effeithiau arwahanrwydd cymdeithasol
- Mae'r ffaith fod llawer iawn o bobl sydd wedi ymddeol yn symud i ardaloedd penodol o'r rhanbarth yn creu cyfleoedd posibl i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymunedol
- Mae modd datblygu'r sylfeini cadarn sy'n bodoli i ddatblygu modelau newydd o ofal a chymorth a sicrhau bod manteision yn deillio o roi camau gweddnewid ar waith mewn ffordd integredig ledled sefydliadau a'r rhanbarth.

Mae modd gweld adroddiad yr asesiad o'r boblogaeth drwy ddilyn y ddolen hon: <http://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/West-Wales-Population-Assessment-March-2017.pdf>

Mae adran 14A o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol lunio cynlluniau ardal sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau y maent yn bwriadu eu darparu neu eu comisiynu mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth. Yn y Gorllewin, mae gwaith cychwynnol wedi dechrau ar y cynllun ardal, a fydd yn canolbwyntio ar feysydd o 'fantais gydweithredol' lle mae dull gweithredu integredig yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Mae hyn yn gyfle i brofi blaenoriaethau strategol presennol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'u newid yn ôl yr angen. Hefyd, bydd angen sicrhau bod y cynllun yn cyfateb i'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan bartneriaid unigol, gan gynnwys Cynllun Blynyddol Bwrdd Iechyd y Brifysgol, ac yn bwysicaf, y cynlluniau llesiant sy'n cael eu llunio gan Fyrddau Gwasanaethau Partneriaeth mewn ymateb i'w hasesiadau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Er bod yr asesiad o'r boblogaeth yn darparu, am y tro cyntaf, sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a rhanbarthol ar gyfer y partneriaid yng nghyswllt angen, darpariaeth bresennol a meysydd i'w gwella, rydym yn cydnabod bod modd gwella'r broses o gynnal yr asesiad ar gyfer adroddiadau'r dyfodol. Yn benodol, mae angen i ni wella lefel ac ansawdd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys preswylwyr a darparwyr gofal, a byddwn yn ceisio cychwyn y broses hon wrth ddatblygu'r cynllun ardal.

10. Ymgysylltu â dinasyddion

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig. Mae'r broses o benodi cynrychiolwyr defnyddwyr

ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r asesiad o'r boblogaeth yn un elfen o waith ehangach Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Gorllewin i sicrhau bod llais dinasyddion lleol yn cael ei glywed a bod y Bwrdd yn ymateb i'r llais hwnnw ym mhob agwedd ar ei waith. Yn dilyn gwaith archwiliadol a gomisiynwyd yn 2015 i ystyried modelau ymgysylltu posibl, rydym yn ystyried dichonolrwydd sefydlu panel dinasyddion o gynrychiolwyr cymunedol, gan gynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr a phobl eraill y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ymgysylltu â nhw yn rheolaidd i brofi ei flaenoriaethau a chlywed safbwyntiau amrywiol ar ddyfodol gofal a chymorth yn y rhanbarth. Byddai trefniant o'r fath yn ategu nifer o grwpiau a fforymau defnyddwyr sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, a byddai'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn awyddus i ryngweithio â nhw yn rheolaidd. Bydd y broses o ddatblygu cynllun clir i weithredu'r trefniadau hyn yn un o flaenoriaethau cyntaf y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn 2017-18. Bydd hyn yn rhan o strategaeth gyfathrebu eang i'w chwblhau tua chanol 2017 a fydd yn sicrhau bod partneriaid a'r cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y bartneriaeth a'i chanlyniadau, a'u bod yn cael cyfle i ddylanwadu ar y rhaglen ranbarthol yn rheolaidd.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ac unrhyw eitemau yn yr adroddiad hwn, ewch i wefan y bartneriaeth yn

www.wwcp.org.uk/?lang=cy neu cysylltwch â Martyn Palfreman, Pennaeth
Cydweithredu Rhanbarthol ar 01267 228978 MJPalfreman@sirgar.gov.uk